

I Cwmni Cletwr Sir Machynlleth



I MANYLION ALLWEDDOL

Prif weithgaredd masnachu	Siop
Swm a godwyd ar gyfer y busnes	£497,000
Dyddiad agor swyddogol	Mai 2013
Nifer yr aelodau	Dros 40
Nifer y gwirfoddolwyr	Dros 50
Poblogaeth sy'n cael ei gwasanaethu	2,235
Gweithgareddau eraill sy'n cael eu cynnig	Caffi, gweithgareddau grŵp, amser stori i blant bach, llyfrgell, syndicet prynu olew, archebion bwyd, manau gwefru ceir trydan

I Gwybodaeth am Cletwr

Mae Cletwr yn siop gymunedol a chaffi mewn ardal wledig sydd wedi colli llawer o'i gwasanaethau. Nod y fenter yw gwneud bywyd yn well i'r gymuned, ac mae beth bynnag maen nhw'n ei wneud yn cael ei fesur yn erbyn y diben syml hwnnw. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae'r pentref wedi colli siop, swyddfa bost, caffi, gorsaf betrol, ysgol ac eglwys. Yr unig bethau oedd ar ôl oedd capel a thafarn. Nid oedd unman i bobl gwrdd â'u cymdogion. Yr unig gyflogaeth oedd ar gael oedd ambell i fferm a busnesau cartref. Nid oedd dyfodol yn y gymuned i bobl ifanc.

I Y daith

Roedd garej Cletwr wedi chwarae rhan werthfawr ym mhentref Tre'r Ddol am bron i 50 mlynedd. Roedd yn gweithredu fel 'siop y pentref' drwy'r blynnyddoedd hynny – lle i hel a rhannu straeon yn ogystal â darparu hanfodion ar gyfer pobl leol. Ar ôl iddo gau yn 2010, collwyd gwasanaeth gwerthfawr ac ar ôl 12 mis, eginodd y syniad o'i ailagor fel menter gymunedol ddi-elw. Gyda chefnogaeth y gymuned, agorodd y siop a'r caffi eu drysau eto fel busnes cymunedol ym mis Mai 2013.


Yn syml, y bwriad oedd darparu siop a chaffi i bobl leol. Mae hyn wedi datblygu'n brif bwrpas, sef darparu cyfleusterau a gwasanaethau i'r gymuned, ond gyda'r elw o'r busnes yn cael ei ddefnyddio i ariannu ystod gynyddol o weithgareddau a gwasanaethau.



I Gwasanaethau

Mae Cletwr yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd i'r afael â llawer o broblemau bywyd gwledig. Er enghraifft, maen nhw'n rhoi gwaith i nifer o wirfoddolwyr ifanc ac, yn ddiweddarach, maen nhw'n cyflogi llawer ohonynt yn rhan-amser. Mae tlodi gwledig hefyd yn cael sylw, drwy ddarparu eitemau sylfaenol sy'n lleihau'r angen am daith 18 milltir ddrud ar y bws i archfarchnad. Mae syndicet olew tanwydd Cletwr yn helpu pobl i brynu sympiaiu llai o olew am bris da.

Maen nhw hefyd yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau eraill, gyda'r nod o ddarparu mynediad at wasanaethau fel Cyngor ar Bopeth ac Undeb Credyd.



I Effaith

Mae Cletwr yn credu mewn darparu cyfleusterau a gwasanaethau i'r gymuned, gyda'r 'elw' yn cael ei ddefnyddio i ariannu amrywiaeth o weithgareddau. Mae ystod eang o weithgareddau gwirfoddoli yn cael eu trefnu, sy'n cynnwys dros 50 o wirfoddolwyr mewn plwyf o 250 o aelwydydd. Mae gwirfoddoli yn helpu pobl ifanc i gyfarfod a gweithio gyda phobl hŷn sy'n elwa o'r cyffro o gymysgu â chenedlaethau iau.

Ar ben hynny, maen nhw'n cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau, o ffermio a thrafodaethau amgylcheddol i deithiau cerdded tywysedig a hanes lleol. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu pobl leol i gymdeithasu, cadw'n iach a chymryd rhan mewn bywyd a'r gymuned. Mae Cletwr hefyd yn gefnogwr balch i'r iaith Gymraeg – yn cynnig llyfrgell Gymraeg am ddim, sesiynau amser stori rheolaidd yn Gymraeg ar gyfer plant bach a dosbarthiadau Cymraeg.

Mae Cletwr yn ceisio gwrandao ar yr hyn y mae aelodau'r gymuned ei eisiau neu ei angen, a gwneud yr hyn y gallant ei wneud i ddiwallu'r angen hwnnw. Yn ogystal â chasglu adborth, maen nhw hefyd yn sicrhau bod ffocws clir ar sut i fynd i'r afael ag anghenion hirdymor y gymuned. Mae'r siop wedi symud i adeilad newydd, ac mae'r

ymgysylltiad mae'r gwirfoddolwyr yn ei gael yn rhoi ymdeimlad o gymuned yn darganfod ei hun ac yn mwynhau bod gyda'n gilydd.



I Rôl Plunkett

Mae Cletwr wedi bod yn ymwneud â nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau allweddol Sefydliad Plunkett ers ei agor fel siop gymunedol. Cletwr oedd Enillwyr ein Gwobr Cymru yn y Gwobrau Perchnogaeth Cymuned Cefn Gwlad yn X. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn rhan o ymgyrch ymwybyddiaeth a gynhaliwyd gan Plunkett yn 2017, gan godi proffil busnesau cymunedol sy'n mynd i'r afael ag unigrwydd.



www.plunkett.co.uk

Ble bynnag rydych chi yn y DU, os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn dechrau neu ddatblygu tafarn gymunedol, cysylltwch â Sefydliad Plunkett Plunkett - **0845 5571469**, info@plunkett.co.uk neu ewch i www.plunkett.co.uk i gael gwybod sut y gallwn ni eich cefnogi.

Mae Sefydliad Plunkett yn helpu cymunedau gwledig ledled y DU i fynd i'r afael â'r problemau y maent yn eu hwynebu drwy hyrwyddo a chefnogi busnes cymunedol. Yn ogystal â datblygu a diogelu asedau a gwasanaethau gwerthfawr, mae busnesau cymunedol yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys ynysu, unigrwydd, lles, gwaith a hyfforddiant.

Os ydych yn rhannu ein gweledigaeth ar gyfer economi wledig fywiog gyda busnes cymunedol gwledig yn ganolog iddi, beth am ymuno â Plunkett fel aelod? Mae mwy o wybodaeth am ein pecynnau aelodaeth ar gael [yma](#).

Roedd yr astudiaeth achos hon yn bosibl drwy bartneriaeth a chyllid gan The Dulverton Trust er mwyn helpu i sefydlu ac i gefnogi busnesau cymunedol ledled Cymru a'r Alban.

THE DULVERTON TRUST